Cyngor Sir Powys
Neuadd Y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

Dyddiad: 28 Mai 2021

Annwyl Riant / Ofalwr,

Gobeithio eich bod yn cadw'n ddiogel ac yn iach yn ystod y cyfnod heriol hwn. Mae wedi bod yn braf gweld y plant a'r bobl ifanc yn ôl mewn ysgolion ledled Powys dros yr hanner tymor diwethaf yma. Diolch am bopeth rydych wedi'i wneud i gefnogi dysgu eich plentyn drwy gydol y chwe mis diwethaf. Byddwch yn gwybod, er bod plant a phobl ifanc yn ôl, nad yw ysgolion yn gweithredu fel yr oedden nhw cyn pandemig Covid-19.

Ar hyn o bryd rydym yn y cyfnod adfer, sy'n golygu y bydd rhywfaint o weithgarwch ysgol yn ailddechrau. Fodd bynnag, byddwn yn mynd ati'n wyliadwrus tu hwnt.

Bydd hyn yn golygu y bydd teithiau ysgol, diwrnodau chwaraeon, cyngherddau'r rhai sy'n gadael ac ati'n cael eu lleihau, sy'n golygu na fydd rhieni'n gallu mynychu'r digwyddiadau hyn. Bydd hyn yn seiliedig ar asesiadau risg cadarn gan yr ysgolion unigol a chanllawiau gweithredol Llywodraeth Cymru.

Bydd unrhyw nosweithiau rhieni a gynhelir yn ystod yr hanner tymor hwn yn rhithwir.

Rydym yn obeithiol y bydd pontio Blwyddyn Chwech yn gallu digwydd gydag ymweliadau go iawn â'r ysgol. Fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar yr amgylchiadau yn yr ysgol bryd hynny. Er enghraifft, efallai y bydd gan ysgol achos cadarnhaol a bydd angen i swigod yr ysgol ynysu wedyn.

Efallai y bydd y sefyllfa Genedlaethol yn dangos mwy o welliant gyda mwy o gyfyngiadau'n cael eu codi. Wedyn gallwn adolygu ein cyngor yn unol â hynny.

Diolch yn fawr unwaith eto am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad.

Yn gywir,



Cyng. Phyl Davies
Aelod Portffolio – Addysg ac Eiddo